

Atgynhyrchiol, cynaliadwy a chadarn: dyfodol ffermio yng Nghymru

Trosolwg

Ers 2016, mae diwydiant bwyd ac amaeth Cymru wedi gorfod ymateb i gyd-destun gweithredu mwyfwy heriol. Canfu Adroddiad Diogelwch Bwyd cyntaf y DU mai'r risg fwyaf yn y tymor canolig i'r tymor hir i gynhyrchu domestig yn y DU yw newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill fel dirywiad pridd, ansawdd dŵr a cholli bioamrywiaeth.

Mae sofraniaeth fwyd a chadernid systemau bwyd Cymru dan fygythiad gan effeithiau hinsoddol lleol a byd-eang, ynghyd â nifer gynyddol o darfiadau cymdeithasol byd-eang. Mae angen newid i adfer natur a'n hadnoddau naturiol, sicrhau cynhyrchu bwyd sero net, a chysylltu'r system cynhyrchu'n well â'r holl anghenion domestig.

Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos bod pwysau amrywiol, o newid hinsawdd a threfoli i arferion ffermio a physgota anghynaliadwy, yn cael effaith negyddol ar natur a'r amgylchedd ehangach ledled Cymru. Nid yw'r un o'n hecosystemau wedi profi'n gadarn, ac mae un ym mhob chwech o'n rhywogaethau dan fygythiad o ddiflannu. Rhaid inni weithredu ar frys ac efallai mai'r tymor Senedd hwn fydd y cyfle olaf i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a hinsawdd i genedlaethau'r dyfodol. Mae Bil(iau) Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy'n gyfleoedd pwysig i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn.

Hoffai Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur i'r Bil(iau) Amaethyddiaeth:

- pennu dyddiad cau clir a chynllun trosiannol ar gyfer rhoi terfyn ar daliadau uniongyrchol nad ydynt yn gysylltiedig â chanlyniadau cynaliadwy;
- llunio cynllun trosiannol clir a diamwys ar gyfer cyflwyno Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n gweithio ar egwyddor arian cyhoeddus ar gyfer canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol (nwyddau cyhoeddus); a
- pennu llinell sylfaen effeithiol o ran rheoleiddio, wedi'i chefnogi gan sancsiynau sifil a chyfreithiol teg a chlir, y mae'n rhaid i'r holl ffermwyr, rheolwyr tir a thirfeddianwyr gydymffurfio â hi i gael bod yn rhan o'r Cynllun.







Rydym ni eisiau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gefnogi ffermwyr i fod yn fwy proffidiol yn gynaliadwy ac i ffermio mewn ffyrdd mwy amrywiol, mwy cadarn ac sydd er mwy o les i fywyd gwyllt ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd cynaliadwy drwy:

- cynorthwyo ffermydd i fabwysiadu arferion sy'n adfer natur (gan gynnwys cydweithrediadau ar gyfer bioamrywiaeth ar raddfa dirweddol/dalgychol), lleihau llygredd aer a dŵr a dirywiad pridd a chefnogi cyfraniad amaethyddiaeth at gyflawni sero net;
- galluogi datrysiadau wedi'u seilio ar natur ar gyfer llifogydd a storio carbon;
- cymhwyso egwyddor sofraniaeth fwyd – galluogi mwy o amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth gymysg a than berchnogaeth leol; a
- cefnogi mynediad gwell a chyfrifol i gefn gwlad, gan alluogi'r cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol i gael budd o natur, ein tirweddau arbennig a'n cefn gwlad hardd, a hybu twristiaeth fferm.

Ein digwyddiad

Rydym yn dwyn ynghyd rai o ffermwyr Cymru sy'n arwain y ffordd o ran ffermio er lles natur ac yn cynhyrchu bwyd cynaliadwy a maethlon ar yr un pryd. Rydym eisiau tynnu sylw at eu gwaith ardderchog a chynnig platfform i drafod sut y gall Llywodraeth Cymru roi gwell cefnogaeth i'r ffermwyr hyn a'r rhai sydd eisiau cyflwyno arferion ffermio sydd er lles natur a'r hinsawdd.

Diolch i ffermwyr NFFN Rhys Evans, Sorcha Lewis, Sam Keynon, Hywel Morgan a Tony Davies am ymuno â ni ac am rannu eu straeon gyda ni heddiw.

Diolch i Sue Pritchard, Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad am gadeirio ein panel, a diolch i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ac i Rachel Sharp, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaethau Natur Cymru, am ymuno â'r panel a'n ffermwyr sy'n ffermio er lles natur.

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

@WalesLink @NFFNUK #WeNeedNature #AngenNatur
www.waleslink.org a www.nffn.org.uk